# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-08-2005):

### Dyddiad y cyfarfod: 15 Mawrth 2005

### Amser y cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Y Gogledd |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Dwyrain De Cymru |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Janet Ryder | Y Gogledd |

### Swyddogion:

| Enw | Swydd |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Keith Bush | Cwnsler Deddfwriaethol, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Richard Crowe | Prif Gyfieithydd Deddfwriaethol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Leanne Osbourn | Dirprwy Clerc |
| Gwyn Griffiths | Y Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb:

Dim

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – LEG(2)-07-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu Cwnsler Deddfwriaethol Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Keith Bush, a'r Prif Gyfieithydd Deddfwriaethol, Richard Crowe. Dywedodd y Cadeirydd y trefnwyd i'r drafodaeth â hwy gael ei chynnal ar ôl ystyried yr Offerynnau Statudol.

3.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo adroddiad drafft clir ar LC1039 - Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 yn y cyfarfod a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf. Dywedodd y Cadeirydd iddi ddod yn amlwg wedi hynny nad oedd y Fframwaith wedi'i gyhoeddi ym mis Chwefror fel y rhagwelwyd gan y Gorchymyn ac y byddai angen adroddiad diwygiedig. Cytunodd â'r Cynghorydd Cyfreithiol ddydd Mercher 9 Mawrth y byddai'r eitem hon yn cael ei rhoi yn ôl ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod heddiw ac roedd y Cynghorydd Cyfreithiol wedi bwrw ymlaen i ddrafftio adroddiad diwygiedig.

3.3 Yn dilyn hynny, roedd y Gweinidog wedi siarad â'r Cadeirydd ac wedi egluro pe na bai'n bosibl i'r Gorchymyn gael ei gyflwyno gerbron Cyfarfod Llawn yr wythnos hon, y câi'r ddeddfwriaeth a gâi ei chefnogi gan bob plaid, ei gohirio tan ar ôl y toriad. Roedd y Cadeirydd wedi penderfynu felly, o dan yr amgylchiadau eithriadol, ac o ystyried y newid syml iawn i'w wneud i'r Gorchymyn (rhoi mis Mawrth yn lle mis Chwefror), ceisio cael cytundeb Aelodau'r Pwyllgor hwn i newid yr adroddiad y tu allan i Bwyllgor. Roedd yr Aelodau oll wedi ymateb yn adeiladol ac wedi cytuno y dylai'r adroddiad diwygiedig gael ei osod. Golygai hynny y gallai'r Llywodraeth osod Memorandwm Cywiriadau er mwyn gwneud y cywiriad hwnnw, fel y gallai'r Cynulliad fynd yn ei flaen i drafod y Fframwaith a'r Gorchymyn yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, ychwanegodd y Cadeirydd wedi hynny, er bod yr Aelodau wedi cytuno ar yr achlysur arbennig hwnnw i ddatrys y mater yn y modd arbennig hwn, fod y dull hwn o ddelio â deddfwriaeth ar y cyfan yn anfoddhaol iawn.

3.4 Diolchwyd y Cadeirydd am y modd ymarferol y bu iddo ymdrin â'r mater.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1038 - Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005

LC1040 - Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005

LC1047 - Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005

LC1048 - Gorchymyn Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2005

LC1049 - Rheoliadau Melysion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005

## Eitem 5: Materion yn codi o'r Offerynnau Statudol: Trafodaethau â Chwnsler Deddfwriaethol Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru Mr. Keith Bush a'r Prif Gyfieithydd Deddfwriaethol Mr. Richard Crowe

5.1 Dywedodd y Cadeirydd y gwahoddwyd y Cwnsler Deddfwriaethol a'r Prif Gyfieithydd Deddfwriaethol i drafod nifer o faterion. Roedd rhai ohonynt wedi deillio'n wreiddiol o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror pryd y bu'r Aelodau yn ystyried LC1030 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005. Gwahoddodd Keith Bush i'w gyflwyno ei hun gerbron y Pwyllgor.

5.2 Dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol wrth yr Aelodau mai ei swydd ef yng Nghyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â drafftio deddfwriaeth gyda'r nod o wella ansawdd cyffredinol y gwaith drafftio. Dywedodd mai rôl y Prif Gyfieithydd Deddfwriaethol oedd rheoli'r adnodd cyfieithu a gâi ei ddarparu i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.

5.3 Atgoffodd y Cwnsler Deddfwriaethol yr Aelodau mai'r pwyntiau a arweiniodd at ei wahodd oedd bod y Pwyllgor Deddfau, pan fu'n ystyried Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005 (LC1030), wedi codi’r mater yngln â’r defnydd a wnaed o iaith ryw-benodol yn Rheoliad 2(3) ac wedi penderfynu trafod yn gyffredinol y defnydd a wneir o iaith ryw-benodol a thestun Saesneg yn unig yn y diwygiadau i reoliadau cyn datganoli.

5.4 Dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol ymhellach fod Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2005 (LC1030) wedi diwygio rheoliadau a wnaed cyn datganoli. Roedd y paragraff dan sylw - "…No resident shall be assessed as unable to pay for his accommodation at the standard rate if his capital, calculated in accordance with Regulation 21, exceeds £21,000.00…" - wedi'i seilio gan y cyfreithiwr ar eiriau'r darpariaethau sydd eisoes yn bod yn yr Offeryn Statudol gwreiddiol.

5.5 Dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol wrth yr Aelodau mai arfer Senedd a Llywodraeth y DU oedd llunio deddfwriaeth yn Saesneg yn unig a defnyddio "he" a "his" i olygu "he or she" neu "his and hers". Roedd Gweinidogion y DU a wnâi is-ddeddfwriaeth yn dilyn yr un arferiad at ei gilydd. Roedd yr arfer o ddefnyddio'r dull dan sylw wedi'i hwyluso gan adran 6 Deddf Ddehongli 1978 a wnâi'r ddarpariaeth y gellid ystyried mewn unrhyw Ddeddf, oni bai y bo'n amlwg nad dyna'r bwriad, fod geiriau gwrywaidd eu cenedl yn cynnwys y benywaidd ac i'r gwrthwyneb. Yn unol ag Adran 23 o'r Deddf Ddehongli câi'r arfer ei ymestyn i is-ddeddfwriaeth.

5.6 Wrth grynhoi felly dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol fod Deddf Ddehongli 1978 yn caniatáu yn benodol defnyddio "he" i olygu "he" neu "she". Aeth yn ei flaen, fodd bynnag, i ddweud er nad oedd yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol fanteisio ar y cyfleuster hwn, gallai cymysgu, o fewn yr un Rheoliadau diwygiedig, ddarpariaeth a gyfeiriai yn unig at "he" a "his" ag eraill a ddefnyddiai "he or she" a "his or her" awgrymu'r bwriad i nodi'r gwahaniaeth. Yr ateb oedd osgoi defnyddio rhagenwau personol yn gyfan gwbl lle bo modd. Gallai'r paragraff dan sylw ddarllen fel a ganlyn: "…No resident shall be assessed as unable to pay for accommodation at the standard rate if that resident’s capital, calculated in accordance with Regulation 21, exceeds £21,000.00..."

5.7 Dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol ei fod yn atgoffa'r cyfreithwyr yn gyson yngln â'r rheidrwydd i sicrhau niwtraliaeth rhwng y rhywiau, gan gydymffurfio â pholisi'r Cynulliad felly o osgoi iaith ryw-benodol a, thrwy hynny, godi safonau drafftio. Roedd y cyfreithiwr arbennig dan sylw, a oedd yn gweithio dan bwysau, wedi cynhyrchu drafft a oedd yn dderbyniol yn gyfreithiol ac a oedd yn dilyn model y ddeddfwriaeth a oedd eisoes yn bod (hy, y rheoliadau cyfrwng Saesneg gwreiddiol ar gyfer Cymru a Lloegr) mor agos â phosibl.

5.8 Dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol ymhellach, hyd yn oed petai'r cyfreithiwr wedi mabwysiadu geiriad ar gyfer y paragraff arbennig a oedd yn niwtral o ran y rhywiau, byddai gweddill y Rheoliadau yn dal i gynnwys iaith ryw-benodol a etifeddwyd.

5.9 Dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol ei fod yn ymwybodol o'r ffaith bod y Pwyllgor hwn yn ymddiddori fwyfwy mewn materion yn ymwneud ag arddull a diwyg. Nid mater o arddull yn unig mo'r broblem dan sylw ond yn hytrach egwyddor bwysig. Byddai diddordeb y Pwyllgor o gymorth iddo yn ei ymdrechion i annog cyfreithwyr i godi safonau drafftio - ei rôl ef oedd cynghori ac annog. Nid oedd ganddo'r pwer i ddweud wrth hanner cant o gyfreithwyr sut yn union y dylent ddrafftio pob darn o ddeddfwriaeth. Gyda threigl amser, byddai'r is-ddeddfwriaeth sydd yn Saesneg yn unig neu sy'n rhyw benodol ac yn dod o fewn pwerau'r Cynulliad yn diflannu. Byddai angen i reoliadau a ddiwygiwyd ar wahanol achlysuron gael eu diddymu maes o law a chyflwyno yn eu lle reoliadau newydd a fyddai'n cydgrynhoi'r amryw ddiwygiadau a wnaed dros y blynyddoedd. Pan gâi hynny ei wneud byddai'r rheoliadau newydd yn gwbl ddwyieithog a byddai’r broblem yngln ag is-ddeddfwriaeth a gyflwynwyd cyn datganoli yn cael ei dileu.

5.10 Wrth drafod, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Er bod y Pwyllgor yn defnyddio Offeryn Statudol penodol fel enghraifft i dynnu sylw at y defnydd a wneir o iaith ryw-benodol, roedd y broblem yn bodoli yn gyffredinol, p'un ai a oedd y ddeddfwriaeth yn diwygio ai peidio;
- Y Cynulliad Cenedlaethol oedd yn gwneud y ddeddfwriaeth ac felly y corff a allai ddweud beth yn union oedd ei angen arno. Pe na bai'r Cynulliad Cenedlaethol am i iaith ryw-benodol gael ei defnyddio yn ei ddeddfwriaeth, byddai'n rhaid i'w hanner cant o gyfreithwyr drafftio gydymffurfio â hynny;
- Ni fyddai'r cynllun y byddai'r ddeddfwriaeth hen ffasiwn yn cael ei disodli'n raddol dros y blynyddoedd gan ddyfodiad y ddeddfwriaeth newydd ond yn cael ei wireddu pe bai yna fecanwaith a ddywedai wrth bobl pryd a sut y dylai ddigwydd;
- Os mai effaith Deddf Ddehongli 1978 yw hyrwyddo iaith ryw-benodol, gwell fyddai diwygio'r Ddeddf honno. Esboniodd y Cwnsler Deddfwriaethol fod y Ddeddf yn caniatáu defnyddio "his" i olygu "his or her", ond roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhydd i ddewis peidio â gwneud hynny.
- Roedd yr Aelodau yn deall y dadleuon hanesyddol a’r traddodiadau cyfreithiol; er hynny, mae'n rhaid i bob traddodiad newid ar ryw adeg neu'i gilydd, neu byddai'r holl ddeddfwriaeth yn cael ei drafftio o hyd mewn iaith ganoloesol na fyddai byth yn newid. Esgus gwael iawn ar ran San Steffan oedd defnyddio traddodiad i glymu'r Cynulliad Cenedlaethol wrth yr arferion o ddrafftio deddfwriaeth a oedd mewn grym cyn datganoli. Mewn mannau lle’r oedd gan LC1030 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) destun Saesneg yn unig, byddai'n rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r testun fod yn Saesneg yn unig hefyd. Efallai y byddai angen i'r Ddeddf Ddehongli gael ei diwygio er mwyn dileu'r anogaeth a roddai i ddefnyddio iaith ryw-benodol. Ni ddylai geiriau Saesneg ymddangos yn y fersiwn Gymraeg; o ran y fersiwn Gymraeg, hynny yn unig y dylai fod - darn o ddeddfwriaeth yn Gymraeg? Roedd yn rhaid i draddodiad ieithyddol newid gydag amser. Ni ddylai'r Cynulliad gael ei rwymo wrth draddodiad cyn datganoli;

Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Cyfreithiol baratoi papur ar y newidiadau a allai gael eu hystyried i'r Ddeddf Ddehongli.

- Awgrymwyd, yn y tymor byr, y gallai'r Cwnsler Deddfwriaethol ddylanwadu ar gyfreithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i beidio â defnyddio iaith ryw-benodol drwy roi cyfarwyddiadau clir iawn yn dweud y dylai iaith niwtral o ran y rhywiau gael ei defnyddio lle bo modd.
- Dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i dynnu ei sylw at y mater.
- Awgrymwyd y gellid dwyn sylw at y mater hwn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor newydd a sefydlwyd i graffu ar Brif Weinidog Cymru. Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym hwn.

5.11 Holwyd yngln â'r hyn a wnaed ynghylch y pwyntiau eraill a godwyd gan y Pwyllgor - y problemau y daethant ar eu traws wrth graffu ar Offerynnau Statudol Drafft (hy, defnyddio'r cymal "Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig" a'r anghysondeb o ran terfyniadau trefnolion). Eglurodd y Cwnsler Deddfwriaethol fod canllawiau wedi'u rhoi i'r cyfreithwyr i osgoi defnyddio ôl-ddodiaid gyda threfnolion yn gyfan gwbl; am nad oeddent yn cael eu defnyddio yn y testun Cymraeg. Ychwanegodd mai un ymadrodd yn unig a gâi ei ddefnyddio o hyn ymlaen yn lle'r amryw wahanol ffurfiau ar y cymal "enwi", sef: "Teitl y Rheoliadau hyn yw..."

5.12 Dywedodd y Cwnsler Deddfwriaethol ei fod bob amser yn hapus i ddod i drafod unrhyw fater a oedd o ddiddordeb i'r Aelodau. Diolchodd y Cadeirydd y Cwnsler Deddfwriaethol a dywedodd fod posibilrwydd y byddai'r Pwyllgor yn ei wahodd i fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol yn ôl yr angen.

## Gweithredu

5.10 Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Cyfreithiol baratoi papur ar y newidiadau a allai gael eu hystyried i'r Ddeddf Ddehongli.

5.10 Gofynnwyd i'r Cwnsler Deddfwriaethol ddylanwadu ar gyfreithwyr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i beidio â defnyddio iaith ryw-benodol drwy roi canllawiau clir i'r perwyl hwnnw.

5.10 Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i dynnu ei sylw at y mater.

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 12 Ebrill 2005.